# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 5 Tachwedd 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley (Cadeirydd), Brian Blakeley (Is-Gadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Hugh Irving, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Prif Gyfreithiwr (SC), Rheolwr Gwasanaethau AD (CR), Gwasanaethau Democratig (SP) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW).

## CROESO

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Cyngor.

Hysbysodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr Aelodau fod gwraig y Cynghorydd James Davies, Nina, wedi rhoi genedigaeth i fachgen bach iach ddoe, 6 pwys 11 ½ owns. Dymunodd y Cadeirydd anfon ei ddymuniadau gorau a llongyfarchiadau i James a Nina.

Roedd Susan Cordiner, y Prif Gyfreithiwr, yn mynychu'r cyfarfod yn lle Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler ddeiseb i'r Cadeirydd ar ran trigolion Rhiw'r Bigwn, Dinbych oedd yn gwneud cais am system un ffordd ar Rhiw'r Bigwn.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) James Davies, Peter Duffy, Carys Guy, Rhys Hughes, Alice Jones a/ac Barry Mellor

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Bu i'r Cynghorwyr Stuart Davies, Huw Hilditch Roberts, Hugh Evans a Meirick Lloyd Davies ddatgan cysylltiad personol ag eitem 6 – Toriadau Effeithlonrwydd y Gweithlu.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw fater brys.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 4 Hydref 2013 a 25 Hydref 2013 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

Adroddodd y Cadeirydd am nifer o ymweliadau llwyddiannus i ysgolion cynradd oedd yn hynod boblogaidd. Mae ymweliadau i nifer o ysgolion cynradd wedi'u trefnu hyd at Ebrill 2014.

Roedd Gŵyl Fwyd Llangollen yn llwyddiant mawr a dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r holl staff a phawb a gyfranogodd.

Dymunodd y Cadeirydd anfon ei longyfarchiadau i bawb oedd yn rhan o Wobrau Chwaraeon Cymunedol Sir Ddinbych a Gwobrau Rhagoriaeth Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn y rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd ac y dylid nodi sylwadau'r Cadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2013.

Tudalen 8, Eitem 7. Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts at Adolygiad Perfformiad Blynyddol gan fod y cwestiynau a ofynnodd ef yn ymwneud â thargedau ac uchelgeisiau, nid fel y nodwyd yn y cofnodion, ac fe atebwyd y cwestiynau gan Bennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn ystod y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2013 fel cofnod cywir.*

## 6 ARBEDION EFFEITHLONRWYDD Y GWEITHLU

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith Adroddiad Arbedion Effeithlonrwydd y Gweithlu (wedi'i gylchredeg yn flaenorol) i ddarparu diweddariad i'r Cyngor Llawn ynglŷn â thrafodaethau'r gweithlu ac yn dilyn canlyniad positif o bleidlais aelodau'r Undebau Llafur, i dderbyn cytundeb y Cyngor Llawn i'w gweithredu.

Fel rhan o'r cytundeb, cytunodd yr Undebau Llafur i drafod ymhellach ar ddau fater:

- Arbedion parhaol o £72k oedd eu hangen o Gynllun Ariannol Tymor Canolig 2012/2015; ac
- Arbedion ariannol o £143k yn 2014/15 ar gyfer costau trefniadau trawsnewid a gytunwyd er mwyn cefnogi gweithredu newidiadau i lwfansau defnyddwyr car hanfodol.

Roedd trafodaethau wedi'u cynnal ac roedd y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol (CBYLl) wedi'u diweddaru.

Ym mis Medi 2013, cyflwynodd yr Undebau Llafur y cynigion canlynol mewn pleidlais i'w haelodau:

- O 1 Hydref 2013, byddai ychwanegiad cynyddol ar gyfer gweithwyr newydd a gweithwyr cyfredol sydd yn derbyn swyddi newydd naill ai ym mis Ebrill neu Hydref, gyda'r ychwanegiad cynyddol cyntaf yn effeithiol ar ôl 12 mis ac uchafswm o 18 mis ar ôl dechrau'r swydd, yn ddibynnol ar ddyddiad dechrau. Wedi hynny byddai'r taliadau cynyddol yn cael eu talu'n flynyddol ym mis Ebrill neu Hydref. Byddai'r cynnig hwn yn berthnasol i'r holl staff gan eithrio athrawon. Amcangyfrifwyd y byddai'r newid yn cynhyrchu digon o arbedion i gyfateb â'r arbedion o £72 mil sydd ei angen gan Gynllun Ariannol Tymor Canolig 2012/15 yn ailadroddol.
- Yn 2014/15 yn unig, byddai'r gweithwyr cyflogedig yn colli 1 diwrnod o gyflog ac yn gallu cymryd un diwrnod o wyliau ychwanegol. Byddai'r cynnig yn berthnasol i'r holl staff (gan gynnwys staff uwch), oni bai am staff sy'n gweithio mewn ysgolion. Cyfrifwyd y byddai'r newid hwn yn cynhyrchu digon o arbedion i gyfateb â'r £143 mil o gostau heb ei ailadrodd.

Byddai adferiad y taliad o ddiwrnod o wyliau ychwanegol yn cael ei rannu rhwng 12 a 15 mis fel nad oedd y tâl yn cael ei dynnu o'r cyflog mewn un mis. Roedd trafodaethau yn parhau gyda'r Undebau Llafur ynglŷn â threfniadau terfynol y cytundeb.

Gallai'r Cynghorwyr Sir ildio un diwrnod o'u lwfans yn wirfoddol. Petai unrhyw Gynghorydd yn dymuno ildio un diwrnod o'u lwfans dylent ysgrifennu llythyr neu anfon e-bost at Bennaeth Cyllid ac Asedau. Petai'r holl Gynghorwyr yn ildio un diwrnod o'u lwfans byddai arbediad o tua £3,000.

Nid oedd athrawon yn cael eu cynnwys yn y cynllun arbedion gan nad yw amodau a thelerau athrawon yn cael eu trafod ar lefel leol, ond yn hytrach ar lefel cenedlaethol. Petai gofyn i athrawon golli diwrnod o gyflog ni fyddai'n cael ei gynnwys fel arbediad gan y byddai Llywodraeth Cymru yn gofyn i gael cadw'r arian yng Nghyllideb Addysg.

Cafwyd pleidlais a'r canlyniad oedd cefnogaeth unfrydol o'r argymhelliad.

***PENDERFYNWYD** bod y Cyngor Llawn yn cytuno gyda'r newid arfaethedig parhaol i'r dyraniadau cyflog ar gyfer gweithwyr newydd a phenodiadau i swyddi dyrchafiad, a'r diwrnod o wyliau di-dâl ychwanegol ar gyfer 2014/15 dim ond er mwyn cyflawni arbedion Effeithlonrwydd y Gweithlu o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig cyfredol.*

## 7 DRAFFT STRATEGAETH UCHELGAIS ECONOMAIDD A CHYMUNEDOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans adroddiad Drafft Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol (wedi'i gylchredeg yn flaenorol) i'r Cyngor Llawn

gymeradwyo Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol a’r Cynllun Cyflawni.

Ers mis Chwefror 2013, mae Grŵp Tasg a Gorffen wedi bod yn gweithio ar ddatblygu strategaeth gyntaf Sir Ddinbych ar gyfer Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn unol â blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol i ddatblygu’r economi lleol.

Cadarnhawyd mai Datganiad Gweledigaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych yw:

- Datblygu cyfleoedd a magu hyder
- Cydweithio i wneud Sir Ddinbych yn fan lle mae:
    - Busnesau, sefydledig a newydd, yn tyfu a ffynnu
    - Ein trefi a'n cymunedau yn fywiog ac yn ffynnu
    - Trigolion yn mwynhau ansawdd da o fywyd ac yn cyfrannu at yr economi leol.

Roedd y canlynol wedi eu nodi fel meysydd i’w blaenoriaethu ac yn ffurfio strwythur craidd y Strategaeth:

- Yr isadeiledd cywir ar gyfer twf
- Busnesau wedi’u cefnogi a’u cysylltu
- Manteisio’n llawn ar gryfderau/cyfleoedd economaidd
- Gweithlu medrus o ansawdd da
- Trefi a chymunedau llewyrchus
- Sir Ddinbych wedi’i hyrwyddo’n dda

Yn gyffredinol, roedd gweithgarwch economaidd Sir Ddinbych ychydig yn uwch na lefel Gogledd Cymru ond yn is na’r DU yn gyffredinol. Roedd hyn yn cuddio pocedi o weithgarwch economaidd ac amddifadedd sylweddol, fodd bynnag, gydag ardaloedd o Rhyl a Dinbych Uchaf ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ynghyd â'r pum Cyngor arall yng Ngogledd Cymru, mae Sir Ddinbych yn aelod o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Roedd y Bwrdd wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i drawsnewid a thyfu economi Gogledd Cymru.

Cafwyd trafodaeth fanwl wedi hynny:

- Roedd angen delio â safleoedd o ddolur llygad ledled y sir gan fod y rhain yn cael effaith ar dwristiaeth. Cytunwyd y byddai angen ymagwedd gytbwys ledled yr Awdurdod Lleol.
- Roedd materion wedi’u nodi mewn perthynas â Sir Ddinbych Digidol. Roedd diffyg gweledigaeth strategol ar gyfer anghenion a chyfleoedd digidol yn Sir Ddinbych. Byddai gweithredu Band Eang Ffibr Cyflym Cymru yn gwella’r perfformiad cyffredinol, ond roedd posibilrwydd y byddai'r diffygion yn y cymunedau gwledig yn parhau.
- Roedd rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen oedd yn cynnwys Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl a phont yr harbwr sydd newydd ei chwblhau, yn parhau.

- Petai Sir Ddinbych yn llwyddiannus yn eu gwaith i ddarparu’r isadeiledd cywir ar gyfer tyfiant yn y sir yna byddai’r dangosyddion yn dangos os oedd y Strategaeth yn cael effaith positif.
- Byddai arwyddion ffordd brown ar yr A55 gyda chyfarwyddiadau drwy Lanelwy yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Tref ac Ardal. Yn anffodus, roedd yr arwyddion yn ddull costus iawn o hyrwyddo’r ardal.
- Byddai hyrwyddo busnesau yn y sir yn parhau.
- Byddai Sir Ddinbych yn parhau i weithio'n agos gydag Asiantaeth Menter Sir Ddinbych.

Cafwyd pleidlais a’r canlyniad oedd cefnogaeth unfrydol o’r argymhelliad.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cyngor yn nodi’r gwaith a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen i baratoi’r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol a’r Cynllun Darparu ac yn eu cymeradwyo i’w gweithredu.*

Ar y pwynt hwn cadarnhaodd y Prif Weithredwr i'r Cyngor Llawn y byddai Adroddiad Williams yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn a byddai’n argymell aildrefnu’r Llywodraeth Leol. Byddai’r adroddiad yn cadarnhau newid nifer yr Awdurdodau Lleol a argymhellwyd yng Nghymru.

Gofynnodd yr Aelodau am drafodaeth lawn ac agored ynglŷn â beth fyddai orau ar gyfer Sir Ddinbych. Petai’r aelodau’n cytuno gyda’r awgrym o dri Awdurdod lleol ar gyfer Gogledd Cymru, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai’n cyflwyno hyn i Lywodraeth Cymru.

Cytunwyd y byddai’r eitem yn cael ei ychwanegu at Raglen y Cyngor Llawn ar y 3 Rhagfyr.

Cafwyd pleidlais drwy godi dwylo ac fe gymeradwywyd y cynnig yn unfrydol.

***PENDERFYNWYD*** *y bydd aildrefnu'r Llywodraeth Leol yn cael ei ychwanegu at y Rhaglen ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr 2013.*

**Ar y pwynt hwn (11.50am) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.10pm.**

## 8 DEDDF DELWYR METEL SGRAP 2013

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith adroddiad am Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013 (wedi’i gylchredeg yn flaenorol) i hysbysu’r Aelodau o ddarpariaethau Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 a gofyn iddynt gymeradwyo’r pwerau dirprwyol a awgrymwyd er mwyn i’r Pwyllgor Trwyddedu allu gwrando ar sylwadau llafar.

Roedd dwyn metel wedi cael effaith enfawr ar yr economi. Er mwyn delio â’r mater, roedd rheoliadau delwyr metel sgrap, a gyflwynwyd yn yr 1960au, wedi’u

diwygio. Roedd y Llywodraeth wedi cyflwyno Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013. Roedd Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 28 Chwefror 2013 a daeth i rym ar 1 Hydref 2013.

Byddai'r Ddeddf yn nodi mai'r Awdurdod Lleol yw prif reolydd y diwydiannau hyn. Roedd y Ddeddf yn creu dau fath gwahanol o Drwydded Metel Sgrap, naill ai "Trwydded Safle" neu "Trwydded Casglwyr Symudol". Byddai'n rhaid i Gasglwr Symudol gael trwydded ym mhob ardal Awdurdod Lleol y byddant yn gweithredu ynddynt.

O dan Ddeddf 2013 byddai'r cynghorau yn gallu gwrthod rhoi trwydded pan benderfynir nad yw'r ymgeisydd yn unigolyn addas i weithredu fel delwyr metel sgrap.

Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 24 Medi 2013.

Cytunodd y Cynghorydd David Smith i gais gan y Cynghorydd David Simmons i archwilio'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r angen i Ddelwyr Metel Sgrap arddangos bathodynnau adnabod ac awdurdodi.

Cytunodd y Cynghorydd Smith hefyd i gais gan y Cynghorydd Win Mullen James i archwilio'r defnydd o Traffolyte fel deunydd yn lle metel.

Cafwyd pleidlais a'r canlyniad oedd cefnogaeth unfrydol o'r argymhelliad.

***PENDERFYNWYD*** *bod Aelodau'r Cyngor yn cymeradwyo'r pwerau dirprwyol a awgrymwyd i'r Pwyllgor Trwyddedau allu gwrando ar sylwadau llafar:*

- *I gymeradwyo neu wrthod Trwydded Metel Sgrap neu drwydded casglwyr*
- *Cymeradwyo neu wrthod amrywio trwydded*
- *Tynnu trwydded yn ôl.*

## 9 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Colin Hughes y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.

"Bod y Cyngor yn gwahardd mynediad at wefannau cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog o lyfrgelloedd, adeiladau a mannau rhyngrwyd diwifr y Cyngor er mwyn gwneud cymaint ag y gallwn i sicrhau nad yw pobl ddiamddiffyn yn defnyddio cyfleusterau'r cyngor i gael mynediad at ddulliau o fenthyca arian nad yw'n fforddiadwy ac sydd, ar adegau, yn anghyfrifol. Yn hytrach bydd y cyngor yn atgyfeirio pobl at undebau credyd a Chyngor ar Bopeth yn y gobaith y bydd cyngor da yn eu harwain drwy eu problemau ariannol."

Cafwyd trafodaeth ac fe gynigwyd y rhybudd o gynnig ac fe'i eiliwyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Colin Hughes i rwystro mynediad at wefannau cwmnïau benthyciadau diwrnod*

*cyflog o lyfrgelloedd, adeiladau a mannau rhyngrwyd diwifr y Cyngor yn cael ei dderbyn.*

## 10 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Rybudd o Gynnig ar ran Grŵp Ceidwadwyr Sir Ddinbych i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.

Roedd y Rhybudd o Gynnig fel a ganlyn:

"Yn dilyn y sylw beirniadol cenedlaethol diweddar o Ysbyty Glan Clwyd a'n pryderon hir dymor ynglŷn â rheolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rydym yn galw ar Gadeirydd y Bwrdd, a benodwyd yn ddiweddar, i fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn. Dymunwn iddo egluro ei gynlluniau ar gyfer newid enw drwg y Bwrdd a'r Gwasanaeth Iechyd yn gyffredinol ledled Gogledd Cymru ac yma yn Sir Ddinbych. Rydym am iddo ddweud wrthym sut y bydd yn adennill hyder y staff, y cleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ein gwasanaethau iechyd lleol."

Cafwyd trafodaeth ac fe gynigwyd y rhybudd o gynnig ac fe'i eiliwyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan Grŵp Ceidwadwyr Sir Ddinbych i alw Cadeirydd newydd y Bwrdd i fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn yn cael ei dderbyn.*

## 11 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler Rybudd o Gynnig ar ran Grŵp Plaid Cymru Sir Ddinbych i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.

Roedd y Rhybudd o Gynnig fel a ganlyn:

"Bod y Cyngor yn nodi:

- Bydd y Llywodraeth Leol yn derbyn toriadau sylweddol yn y blynyddoedd sydd i ddod o ganlyniad i Adolygiad Gwariant Llywodraeth San Steffan a'r effaith yn dilyn hynny ar y gyllideb ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- Gallai ymestyn Treth Trafodion Ariannol ar gyfranddaliadau i ddosbarthiadau asedau eraill megis bond a deilliadau greu £20biliwn o refeniw ychwanegol yn y DU bob blwyddyn ;a
- Mae o leiaf 11 talaith Ewropeaidd gan gynnwys Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal a Sbaen yn symud ymlaen gyda threthi trafodion ariannol ar gyfranddaliadau, bond a deilliadau gyda'r rhagamcan o greu £30biliwn y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn credu:

- Gallai refeniw o Drethi Trafodion Ariannol gynorthwyo i adfer y difrod a wnaed oherwydd toriadau i wasanaethau cyhoeddus;
- Fel prif ddarparwyr gwasanaethau lleol a darparwyr cyflogaeth, mae'r llywodraeth leol yn haeddu derbyn cyfran sylweddol o refeniw trethi trafodion ariannol.

Mae’r Cyngor yn penderfynu:

- Y dylai Llywodraeth y DU ymestyn Trethi Trafodion Ariannol cyfredol sydd ar gyfranddaliadau i ddosbarthiadau asedau eraill, megis bond a deilliadau, ac i sicrhau fod y refeniw yn cael ei ddyrannu i'r gweinyddwyr datganoledig.

Mae’r Cyngor hefyd yn penderfynu:

- Ysgrifennu at Brif Weinidog y DU, y Dirprwy Brif Weinidog, a Changhellor y Trysorlys, yn nodi cefnogaeth y Cyngor i ymestyn Trethi Trafodion Ariannol.”

Cafwyd trafodaethau a mynegodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill ei amheuaeth o’r cynllun yn dilyn yr archwiliadau a wnaed ganddo.

Cynigwyd y rhybudd o gynnig ac fe’i eiliwyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Arwel Roberts am Bleidlais a Gofnodwyd ac fe gytunodd nifer o’r Aelodau.

Cafwyd pleidlais a gofnodwyd ac yn unol â hynny, pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid y Cynnig:
Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Peter Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Huw Jones, Peter Jones, Gwyneth Kensler, Margaret McCarrol, Jason McLellan, Win Mullen-James, Robert Murray, Paul Penlington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Bill Tasker, Cefn Williams, a Cheryl Williams

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn y Cynnig:
Ian Armstrong, Meirick Lloyd Davies, Ann Davies, Hugh Evans, Martyn Holland, Colin Hughes, Hugh Irving, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry,
Barbara Smith, David Smith, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, a Huw Williams

***PENDERFYNWYD*** *bod y Rhybudd o Gynnir a gyflwynwyd gan Grŵp Plaid Cymru Sir Ddinbych i ymestyn Trethi Trafodion Ariannol cyfredol ar gyfranddaliadau i ddosbarthiadau asedau eraill megis bond a deilliadau a hefyd ysgrifennu at y Prif Weinidog, Dirprwy Brif Weinidog a Changhellor y Trysorlys yn nodi cefnogaeth y Cyngor i ymestyn Trethi Trafodion Ariannol yn cael ei dderbyn.*

Ar y pwynt hwn, diolchodd y Cadeirydd i’r holl Aelodau am eu trafodaethau adeiladol yn ystod y bore.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau am Seminar Cyllideb Arbennig sy’n cael ei gynnal ar 9 Rhagfyr 2013.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau am y Gwasanaeth Carolau sy’n cael ei gynnal yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy am 7:00pm ar y 10 Rhagfyr.

## 12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd y Cadeirydd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor, a gafodd ei chylchredeg yn flaenorol, a chytunodd yr Aelodau i gynnwys yr eitemau newydd canlynol yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol:

- 3 Rhagfyr 2013 – Aildrefnu Llywodraeth Leol
- 3 Rhagfyr 2013 – Ar ôl derbyn y Rhybudd o Gynnig, bydd y Dr Higson, Cadeirydd y Bwrdd yn bresennol i egluro ei gynlluniau ar gyfer adfer enw drwg y Bwrdd a'r Gwasanaeth Iechyd yn gyffredinol ledled Gogledd Cymru. Hefyd egluro sut y bydd yn adennill hyder y staff, y cleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol yn y gwasanaeth iechyd lleol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor, yn amodol ar yr uchod.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm.**